

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Dinas Casnewydd

Cyhoeddwyd: Mawrth 2013
Cyfeirnod y ddogfen: 134A2013



# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am gynnal archwiliadau blynyddol o bron i £5.5 biliwn o arian a drosglwyddir gan Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol ar ffurf grantiau cyffredinol a phenodol. Yn ei thro, mae llywodraeth leol yn codi £2.1 biliwn pellach drwy'r dreth gyngor ac ardrethi busnes.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gwneud i arian cyhoeddus gyfrif, drwy hybu gwelliannau, fel y gall pobl Cymru gael budd o wasanaethau cyhoeddus atebol a reolir yn dda sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Mae hefyd yn ymrwymedig i nodi a lledaenu arfer da ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Non Jenkins a Jackie Joyce o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

# Cynnwys


**Crynodeb** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 6

Er y gwnaed gwelliannau i rai gwasanaethau, bu gwendidau allweddol yn y ffordd y caiff y broses wella ei rheoli a'i chyflawni, y mae'r Cyngor wedi'u cydnabod ac y mae bellach yn ymdrin â hwy 7

Er bod perfformiad y Cyngor mewn rhai gwasanaethau wedi gwella, mae ei berfformiad cyffredinol wedi gwaethygu yn ystod y tair blynedd diwethaf 7

Bu hunanwerthusiad y Cyngor o'i berfformiad yn wan gan lesteirio ymdrechion i reoli perfformiad, ei werthuso, cyflwyno adroddiadau arno a'i wella. Mae'r Cyngor yn cydnabod y materion hyn ac yn ymateb mewn ffordd gadarnhaol 19

Nid yw'n glir pa un a yw'r Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod 2012-13. Bu cyflymder gwelliannau yn araf mewn rhai meysydd allweddol ac mae'n wynebu penderfyniadau anodd er mwyn cyflawni tua £27 miliwn o arbedion yn ystod y pum mlynedd nesaf 21

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 26

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am Gasnewydd a Chyngor Dinas Casnewydd 27

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig 28

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Dinas Casnewydd 31

Atodiad 5
Cynigion ar gyfer gwella 2012-13 35

# Crynodeb

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Gan ddefnyddio gwaith arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, ynghyd â gwaith a wnaed ar ei ran gan Swyddfa Archwilio Cymru, mae'r adroddiad hwn yn rhoi darlun o welliant dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r adroddiad mewn tri phrif adran; sydd yn ymdrin â sut y llwyddodd y Cyngor i ddarparu a gwerthuso gwasanaethau mewn perthynas â 2011-12, a sut mae'n cynllunio ar gyfer gwelliant yn 2012-13.

2 Yn gyffredinol, daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad er y gwnaed gwelliannau i rai gwasanaethau, bu gwendidau allweddol yn y ffordd y caiff y broses wella ei rheoli a'i chyflawni, y mae'r Cyngor wedi'u cydnabod ac y mae bellach yn ymdrin â hwy.

3 Yn rhan un o'n hadroddiad, down i'r casgliad er bod perfformiad y Cyngor mewn rhai gwasanaethau wedi gwella, bod ei berfformiad cyffredinol wedi gwaethygu yn ystod y tair blynedd diwethaf. Daethom i'r casgliad hwn o ganlyniad i'r canfyddiadau canlynol:

- Canol Dinas Fywiog - Ymwelodd llai o bobl â chanol dinas Casnewydd yn 2011-12 nag yn 2009, er bod y nifer yn uwch na'r nifer a ddisgwyliwyd gan y Cyngor. Nid oes data cyfredol ar gael ar berfformiad y ddinas wrth ddenu a chefnogi buddsoddiad preifat.
- Mwy o Fusnes, Mwy o Swyddi - Er bod y Cyngor wedi rhoi cymorth i fusnesau lleol ac wedi helpu i greu a diogelu swyddi, nid yw'r perfformiad cyffredinol wedi gwella.
- Dinas Ddiogel ac Iach – Mae'r Cyngor wedi gwneud rhai gwelliannau o ran y gwasanaethau sy'n cyfrannu at ddiogelwch ac iechyd yng Nghasnewydd ond mae cyflymder y gwelliannau o fewn gwasanaethau eraill yn arafach na chyflymder cynghorau eraill yng Nghymru.
- Bu rhai gwelliannau o ran y gwasanaethau sy'n cyfrannu at amcanion gwella eraill ond oherwydd cyfyngiadau yn nefnydd y Cyngor o fesurau perfformiad, mae weithiau'n anodd asesu cyflawniadau a gwelliannau yn llawn.
- Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd wrth sefydlu'r adnodd Gwasanaethau Eiddo newydd ond mae gwendidau mewn rheoli strategol, gwybodaeth am asedau a chynllunio buddsoddiadau yn parhau i lesteirio gwelliannau hir-dymor.
- Mae'r Cyngor wedi gwneud nifer o newidiadau i'r ffordd y mae'n darparu budd-daliadau tai ond nid ydynt wedi arwain at welliannau i'r gwasanaeth eto.

4 Yn rhan dau, down i'r casgliad y bu hunanwerthusiad y Cyngor o berfformiad yn wan gan lesteirio ei ymdrechion i reoli perfformiad, ei werthuso, cyflwyno adroddiadau arno a'i wella. Mae'r Cyngor yn cydnabod y materion hyn ac yn ymateb mewn ffordd gadarnhaol. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- Ni ddangosodd adolygiad y Cyngor pa un a oedd wedi cyflawni ei amcanion gwella ac wedi gwella canlyniadau i ddinasyddion.
- Mae'r Cyngor yn cydnabod bod ei brosesau ar gyfer hunanwerthuso ei berfformiad wedi bod yn anghydlynus a bod hynny wedi atal y Cyngor rhag rhoi trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli perfformiad, ei werthuso, cyflwyno adroddiadau arno a'i wella.
- Yn gyffredinol mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar waith ar gyfer casglu, cofnodi a monitro dangosyddion perfformiad ond mae angen gwella cywirdeb yr adroddiadau a gyflwynir.

5 Yn olaf, mae rhan tri o'r adroddiad yn nodi ein barn ynghylch pa mor dda y mae'r Cyngor yn cynllunio ac yn gwneud trefniadau i gefnogi gwelliannau. Ein casgliad cyffredinol yw nad yw'n glir pa un a yw'r Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod 2012-13. Bu cyflymder gwelliannau yn araf mewn rhai meysydd allweddol ac mae'n wynebu penderfyniadau anodd er mwyn cyflawni tua £27 miliwn o arbedion yn ystod y pum mlynedd nesaf. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i atgyfnerthu trefniadau atebolrwydd er mwyn gwella perfformiad ac effeithlonrwydd.
- Mae gan y Cyngor hanes da o reoli ei gyllideb ond mae'n cydnabod bod angen gwella ei ddull cynllunio ariannol tymor canolig, felly hefyd y ffordd y caiff arbedion eu dosbarthu a'u cofnodi. Mae cynghorwyr yn wynebu rhai penderfyniadau anodd er mwyn ymdrin â'r bwlch ariannu £27 miliwn dros y pum mlynedd nesaf.
- Mae'r Cyngor yn parhau i wneud rhywfaint o gynnydd wrth ymdrin â'n cynigion ar gyfer gwella ond mae'n cydnabod mewn rhai achosion y bu cynnydd yn araf a bod anghysondebau yn y ffordd y rheolodd ein canfyddiadau ac yr ymdriniodd â hwy.
- Mae partneriaid yn ymrwymedig iawn i weledigaeth rhaglen Eiddilwch Gwent ac maent wedi llunio fframwaith rheoli rhaglen cadarn i'w hategu. Megis dechrau y mae'r gwaith o weithredu rhaglen Eiddilwch Gwent ac erys heriau i sicrhau ei bod yn gynaliadwy, newid ymddygiad sefydledig a dangos ei heffaith.
- Cafodd Gwasanaeth Cyflawniad Addysg newydd ei greu ar gyfer De-ddwyrain Cymru ac mae'n canolbwyntio ar wella lefelau cyrhaeddiad o fewn ysgolion.

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

6 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda chymorth arolygiaethau yng Nghymru, sef Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae pob cyngor yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni a sut mae'n gwneud hynny. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf, gan ddefnyddio hunanasesiad y Cyngor ei hun.

7 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r cyngor. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.

8 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod;
- gwneud cynigion ar gyfer gwella - os byddwn yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.


9 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

## Er y gwnaed gwelliannau i rai gwasanaethau, bu gwendidau allweddol yn y ffordd y caiff y broses wella ei rheoli a'i chyflawni, y mae'r Cyngor wedi'u cydnabod ac y mae bellach yn ymdrin â hwy

### Er bod perfformiad y Cyngor mewn rhai gwasanaethau wedi gwella, mae ei berfformiad cyffredinol wedi gwaethygu yn ystod y tair blynedd diwethaf

10 Mae *Cynllun Gwella 2012-13* y Cyngor yn datgan mai ei nod cyffredinol yw cyflawni gwelliant parhaus ym mhopeth a wna drwy barhau i wneud y newidiadau cynyddrannol a darbodus yn y ffordd y mae'n cynllunio ac yn darparu gwasanaethau ac yn cynnal ei fusnes. Datgelodd dadansoddiad y Cyngor ei hun o'i welliant yn ystod 2011-12 fod 54 y cant o'r mesurau wedi perfformio'n well o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, perfformiodd 50 y cant yn well na'r targed a pherfformiodd 64 y cant yn well na chyfartaledd Cymru. Dengys dadansoddiad tymor hwy o 161 o fesurau perfformiad y Cyngor fod perfformiad cyffredinol y Cyngor dros y tair blynedd diwethaf wedi gwaethygu (gweler Ffigur 1).


Ffigur 1 – Dadansoddiad o fesurau perfformiad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, y targed yn ystod y flwyddyn a chyfartaledd Cymru ar gyfer 2009-10, 2010-11 a 2011-12



11 Mae dadansoddiadau eraill o fesurau perfformiad yn datgelu patrymau tebyg. Yn *Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2011-12* y Cyngor, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2012, noda'r Cyngor o blith y 40 o ddangosyddion perfformiad y gellir eu cymharu â'r flwyddyn flaenorol, fod 24 (60 y cant) yn dangos gwelliant o ran perfformiad yn 2011-12 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a bod 16 (40 y cant) yn dangos bod perfformiad wedi gwaethygu. Mae gan 36 o ddangosyddion dargedau ar gyfer 2011-12, y mae 18 (50 y cant) ohonynt yn dangos na lwyddodd y Cyngor i gyrraedd y targedau a bennodd iddo'i hun.

12 Mae gan y Cyngor 23 o 'brif ddangosyddion poblogaeth' penodol ar gyfer ei naw amcan gwella. Noda ein dadansoddiad o'r 19 o brif ddangosyddion y gellir eu cymharu â ffigurau llinell sylfaen fod 11 (58 y cant) o'r mesurau yn dangos gwelliant o ran perfformiad. O blith y 18 mesur sy'n cynnwys targedau ar gyfer 2011-12, llwyddodd wyth ohonynt (44 y cant) i gyrraedd y targed neu ragori arno.

Ffigur 2 – Dadansoddiad o 'brif ddangosyddion poblogaeth' yr amcanion gwella perfformiad gwirioneddol a gyflawnwyd yn 2011-12 o gymharu â'r llinell sylfaen a targed 2011-12



13 Ym mis Awst 2011, cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun Gwella[1] sy'n nodi'r amcanion gwella canlynol (gweler Atodiad 4 i gael manylion):

- Canol Dinas Fywiog
- Mwy o Fusnesau, Mwy o Swyddi
- Addysg Ardderchog i Bawb
- Dinas Ddiogel ac Iach
- Delwedd Gadarnhaol
- Cysylltiadau Trafnidiaeth Da
- Cwsmeriaid
- Perfformiad
- Chi

14 Isod ceir dadansoddiad cryno o ba mor dda y mae'r Cyngor yn perfformio wrth gyflawni gwelliant yn erbyn y blaenoriaethau hyn.

## Canol Dinas Fywiog - Ymwelodd llai o bobl â chanol dinas Casnewydd yn 2011-12 nag yn 2009 er bod y nifer yn uwch na'r nifer a ddisgwyliwyd gan y Cyngor. Nid oes data cyfredol ar gael ar berfformiad y ddinas wrth ddenu a chefnogi buddsoddiad preifat.

15 Fel rhan o'i amcan gwella *Canol Dinas Fywiog*, nododd y Cyngor adfywio canol y ddinas a gŵyl Casnewydd fel y ddau gam gweithredu penodol y byddai'n eu cymryd i gyflawni'r amcan gwella. Fel rhan o'r gwaith o adfywio canol ei ddinas, dewisodd y Cyngor ei bartner datblygu a llwyddodd i ddenu Debenhams fel y brif siop fanwerthu a Cineworld fel y prif gyfleuster hamdden yn ystod 2011-12. Bydd llawer o'r gwaith ailddatblygu gwirioneddol yn dechrau yn 2013, gan gynnwys y gwaith o ddatblygu swyddfeydd a siopau ar safle canolfan Cambrian, ailwampio Marchnad Casnewydd, y terminws bysiau newydd yn Lower Dock Street a chynllun siopa a hamdden Friars Walk.

16 Cynhaliwyd Gŵyl gyntaf Casnewydd yn 2010 a chafodd adborth cadarnhaol gan drigolion a busnesau. Fel rhan o Ŵyl Casnewydd 2011, cynhaliwyd amrywiaeth o ddigwyddiadau yng nghanol y ddinas gan gynnwys yr Ŵyl Fwyd, y Big Splash a'r ŵyl gomedi.

1 Cynllun Gwella 2011-12 *Fit for the Future Feeling Good about Newport*

17 Fel mesur o lwyddiant, mae'r Cyngor yn defnyddio Mynegai Cystadleurwydd y DU[2] sy'n faromedr da ar gyfer barnu pa mor dda y mae cynghorau, rhanbarthau a gwledydd yn y DU yn perfformio wrth ddenu buddsoddiad newydd o'r sector preifat yn ogystal â helpu busnesau sy'n bodoli eisoes i ffynnu. Gan mai bob dwy flynedd y caiff y Mynegai ei gyhoeddi, nid oes data ar gael i wneud asesiad ar gyfer 2011-12. Yn 2008, roedd Casnewydd yn 31ain allan o 44 o ddinasoedd dynodedig yn y DU ac yn 2010, roedd yn 28ain allan o 43 o ddinasoedd dynodedig yn y DU[3]. Cymru yw'r rhanbarth lleiaf cystadleuol yn y DU a dylid hefyd ystyried perfformiad y Cyngor yn erbyn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni ledled y DU.

18 Y mesur arall a ddefnyddir gan y Cyngor i asesu pa un a yw wedi llwyddo i sicrhau canol dinas mwy bywiog yw nifer y bobl sy'n mynd i'r ardal honno. Er bod llai o bobl wedi ymweld â chanol y ddinas yn 2011-12 (8.9 miliwn) nag yn 2009 (10.1 miliwn), rhagorodd y Cyngor ar ei ddisgwyliad, sef denu 7.9 miliwn o ymwelwyr i ganol y ddinas yn 2011-12.

19 Yn ystod mis Ebrill 2012, gwnaethom adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer cynllunio, cyflwyno a gwerthuso ei fentrau adfywio. Canolbwyntiodd ein hadolygiad ar asesu pa un a oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer: cynllunio ei ymagwedd tuag at weithgareddau adfywio; sicrhau y caiff gweithgareddau a chyfrifoldebau eu trefnu mewn ffordd sy'n ategu'r broses o gyflawni amcanion; ac a yw'r Cyngor yn ystyried gwybodaeth berthnasol wrth werthuso'r broses o roi ei strategaeth ar waith.

20 Daethom i'r casgliad er bod gan y Cyngor gynlluniau a strwythurau i ategu'r broses adfywio yng Nghasnewydd, nad oedd y trefniadau yn ddigon cadarn i'w alluogi i gynnal gwerthusiad cynhwysfawr o effaith ei fentrau adfywio. Mae'r Cyngor wrthi ar hyn o bryd yn ymdrin â'n cynigion ar gyfer gwella. Ers i ni gynnal ein hadolygiad, mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei *Strategaeth Datblygu Economaidd 2011-2015* a bydd yn cynnal cynhadledd i randdeiliaid allweddol yn ystod Gwanwyn 2013 er mwyn ailystyried y Strategaeth.

21 Dylid nodi hefyd bod Llywodraeth Cymru, drwy ei ymgynghoriad ar y Fframwaith Adfywio Newydd 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' wedi gofyn am sylwadau ar ddyfodol ei pholisïau buddsoddi a'i bod hefyd yn ystyried ei dulliau ar gyfer ariannu cwmni adfywio trefol Casnewydd, Newport Unlimited, yn y dyfodol. Mae'r Cyngor yn cydnabod yr amgylchiadau economaidd anodd a'r newidiadau posibl ar lefel genedlaethol, mae'n ymwybodol y bydd angen blaenoriaethau adfywio clir a realistig arno er mwyn creu'r amodau busnes priodol i ffynnu.

2 Cyflwynwyd a chyhoeddwyd Mynegai Cystadleurwydd y DU (UKCI) gyntaf yn 2000 gan Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd. Mae'n darparu meincnod o gystadleurwydd rhanbarthau ac ardaloedd y DU. Cynlluniwyd Mynegai Cystadleurwydd y DU fel ffordd integredig o fesur cystadleurwydd gan ganolbwyntio ar ddatblygiad a chynaliadwyedd busnesau a lles economaidd unigolion.

3 Poblogaethau o fwy na 100,000 o bobl heb gynnwys Llundain.

## Mwy o Fusnes, Mwy o Swyddi - Er bod y Cyngor wedi rhoi cymorth i fusnesau lleol ac wedi helpu i greu a diogelu swyddi, nid yw'r perfformiad cyffredinol wedi gwella

22 Mae gan y Cyngor amcan gwella o'r enw *Mwy o Fusnes, Mwy o Swyddi* (gweler Atodiad 4 am ragor o fanylion) ac mae wedi ymgymryd â nifer o weithgareddau yn ystod 2011 12. Mae'r camau gweithredu yn cynnwys rhoi cymorth i fusnesau a gweithio gyda phartneriaid lleol i roi rhaglenni ar waith i helpu trigolion i feithrin sgiliau a dod o hyd i swyddi. Helpodd y Cyngor 48 o fusnesau newydd, creodd 194 o swyddi a diogelodd 256 o swyddi yn ardal Casnewydd. Anelwyd rhaglenni sgiliau at bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, gofalwyr a phobl a fu'n ddi-waith ers cyfnod hir. Cymerodd tua 1,387 o bobl ran mewn prosiectau a chafodd 558 gymorth i ddod o hyd i swyddi neu hyfforddiant pellach. Dylid ystyried y perfformiad hwn yn erbyn yr hinsawdd economaidd bresennol ledled y DU.

23 Er gwaethaf y gweithgarwch hwn, a'r ffaith bod y Cyngor wedi cyrraedd y targedau y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru yn ei Gytundeb Canlyniadau, mae'r tri mesur a ddefnyddir gan y Cyngor i farnu ei lwyddiant ei hun mewn perthynas â'r amcan gwella hwn yn dangos nad yw wedi cyflawni ei amcan gwella nac wedi cyflawni'r gwelliant a gynlluniwyd ganddo. Ni lwyddodd y Cyngor i gyrraedd ei dargedau ar gyfer 2011-12 a bennwyd ar gyfer pob un o'r tri mesur, a dangosodd dau fesur fod perfformiad wedi gwaethygu i lefel islaw'r llinell sylfaen a bennwyd sawl blwyddyn yn ôl. Er enghraifft, roedd y Cyngor am gynyddu nifer y mentrau gweithredol yn y ddinas o linell sylfaen o 3,805 yn 2008 i 3,825 yn 2011-12, ond nifer gwirioneddol y mentrau gweithredol yn 2011-12 oedd 3,715 - sy'n is na'r targed a'r llinell sylfaen. Yn fwy cadarnhaol, mae'r gyfradd anweithgarwch economaidd wedi gwella o 27.3 y cant yn 2009 i 25.6 y cant yn 2011-12 a bu bron i'r Cyngor gyrraedd ei darged ar gyfer 2011-12, sef 25.5 y cant.

24 Mae'r mesurau eraill a all helpu i roi darlun o berfformiad yn cynnwys cyfradd y bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol ar ôl blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Er bod y gyfradd yng Nghasnewydd wedi bod yn dirywio'n gyson ers 2007 i 6.7 y cant yn 2011-12, mae ymhlith y lefelau uchaf yng Nghymru ac ymhell uwchben cyfartaledd Cymru, sef 4.4 y cant.

## Dinas Ddiogel ac Iach – Mae'r Cyngor wedi gwneud rhai gwelliannau o ran y gwasanaethau sy'n cyfrannu at ddiogelwch ac iechyd yng Nghasnewydd ond mae cyflymder y gwelliannau o fewn gwasanaethau eraill yn arafach na chyflymder cynghorau eraill yng Nghymru

25 Mae *Dinas Ddiogel ac Iach* yn un o amcanion gwella eraill y Cyngor ac mae'n cwmpasu nifer o wasanaethau gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol, hamdden, gwastraff a diogelwch cymunedol. Mae hunanasesiad y Cyngor yn nodi bod lefelau trosedd ac anhrefn ledled Casnewydd wedi lleihau. Mae'r Cyngor yn gweithio fel rhan o'r Bartneriaeth Cymunedau Mwy Diogel ac yn defnyddio data i nodi mannau lle ceir problemau'n aml a dyrannu adnoddau yn unol â hynny, er enghraifft, mewn ardaloedd penodol o'r ddinas ac ar adegau penodol o'r flwyddyn megis Calan Gaeaf.

26 Yn 2011-12, bu gostyngiad o 20 y cant mewn digwyddiadau gwrthgymdeithasol ledled ardal y Cyngor yn gyffredinol a chafwyd gostyngiad amlwg o 32 y cant yng nghanol y ddinas o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Hefyd, gostyngodd lefelau trosedd difrifol mewn perthynas ag eiddo 22 y cant. Roedd gan y Cyngor darged i leihau nifer y digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol y rhoddir gwybod i'r Cyngor amdanynt 10 y cant i 1,350. Fodd bynnag, o ganlyniad i newidiadau yn y ffordd y caiff data ei gasglu, nid yw mor hawdd i'r Cyngor fesur ei berfformiad ei hun yn erbyn y dangosydd penodol hwn a chyflwyno adroddiadau ar y perfformiad hwnnw. Serch hynny, dengys data'r Heddlu ostyngiad amlwg o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

27 Mae gan y Cyngor nifer o raglenni wedi'u hanelu at wella iechyd y cyhoedd. Maent yn cynnwys Casnewydd Actif[4], Anelu am Aur[5] a MEND[6], lle y perfformiodd yn well na'r disgwyl yn 2011-12. Rhagorodd y Cyngor ar ei darged o ddenu 35,000 o bobl i ymuno â'r rhaglen Anelu am Aur ac ym mis Mawrth 2012, roedd 47,409 o bobl yn cymryd rhan. Noda'r Cyngor fod tua 57 o deuluoedd wedi cwblhau rhaglen MEND gyda chanlyniadau cadarnhaol o ran plant yn colli pwysau. Cwblhawyd y rhaglen atgyfeiriadau ymarfer corff 16 wythnos o hyd gan 863 o bobl sy'n cynrychioli 41 y cant o'r rheini a ddechreuodd ar y rhaglen.

28 Fodd bynnag, cafwyd gostyngiad cyffredinol yn nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon Casnewydd o 1.84 miliwn yn 2010-11 i 1.76 miliwn yn 2011-12. Cafwyd gostyngiad hefyd yn nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden fesul 1,000 o'r boblogaeth lle cymerodd yr ymwelydd ran mewn ymarfer corff o 7,639 yn 2010-11 i 7,408 yn 2011-12. Mae'r perfformiad yn 2011-12 islaw cyfartaledd Cymru, sef 8,761, ac yn golygu bod y Cyngor yn y 16[eg] safle allan o 22 o gynghorau yng Nghymru. Dywedodd y Cyngor wrthym y gellid priodoli hyn i'r ffaith bod dwy ganolfan hamdden wedi cau a'r amgylchedd economaidd sydd ohoni.

29 Mae Prosiect Gwyrdd[7] yn parhau i wneud cynnydd ac er y bu'n rhaid ymestyn y terfynau amser, disgwylir penderfyniad terfynol gan bob un o'r pum cyngor ar yr ateb amgylcheddol, costeffeithiol ac ymarferol gorau ar gyfer ymdrin â gwastraff yn ystod blwyddyn ariannol 2012-13. Mae gwastraff dinesig cyfunol y pum awdurdod yn cyfateb i 40 y cant o gyfanswm gwastraff dinesig Cymru ac mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu targed i'r cynghorau gyflawni cyfradd ailgylchu a chompostio o 70 y cant erbyn 2025.

4 Mae rhaglen Casnewydd Actif Cyngor Dinas Casnewydd yn annog mwy o bobl i fod yn fwy actif, yn amlach.

5 Roedd y prosiect yn hyrwyddo bwyta'n iach a ffyrdd egnïol o fyw ymhlith plant a theuluoedd ac yn pwysleisio dwy neges bwysig: Bwytewch bump dogn o ffrwythau a llysiau bob dydd a Gwnewch 60 munud o ymarfer corff bob dydd o leiaf bum gwaith yr wythnos.

6 Mae rhaglen MEND (Mind Exercise Nutrition …Do it!) yn rhaglen bwyta'n iach 10 wythnos o hyd sy'n llawn hwyl ac am ddim a gaiff ei rhedeg yn lleol sy'n annog plant a'u teuluoedd i ddod yn fwy heini, yn iachach ac yn hapusach.

7 Mae Prosiect Gwyrdd yn bartneriaeth rhwng pum cyngor (Caerffili, Caerdydd, Sir Fynwy, Casnewydd a Bro Morgannwg) sy'n anelu at ddod o hyd i'r ateb amgylcheddol, costeffeithiol ac ymarferol gorau ar gyfer gwastraff ar ôl ailgylchu a chompostio cymaint â phosibl yn ardal pob cyngor.

30 Gwellodd perfformiad y Cyngor mewn perthynas â gwastraff yn 2011-12, ond o gymharu â pherfformiad ledled Cymru, nid yw'r Cyngor yn gwella ar gyflymder cystal â chynghorau eraill. Mae'r Cyngor yn parhau i leihau canran y gwastraff a gaiff ei anfon i safleoedd tirlenwi, o 59.27 yn 2009-10 i 51.74 yn 2011-12. Mae'r perfformiad hwn yn well na chyfartaledd Cymru, sef 44.73 y cant. Yn 2010-11, roedd y Cyngor yn y 15fed safle ac er y bu gwelliant, bu cyfradd y gwelliant yn arafach na chynghorau eraill ledled Cymru ac o ganlyniad, roedd y Cyngor yn y 19eg safle yn 2011-12.

31 Mae'r Cyngor hefyd yn cynyddu'r swm o wastraff a gaiff ei baratoi i'w ailddefnyddio neu ei ailgylchu o 43.7 y cant yn 2010-11 i 46.35 y cant yn 2011-12. Fodd bynnag, mae'r perfformiad hwn islaw cyfartaledd Cymru, sef 48.53 y cant. Yn 2010-11, roedd y Cyngor yn y 10fed safle ac er y bu gwelliant, bu cyfradd y gwelliant yn arafach na'r gyfradd ledled Cymru ac o ganlyniad, roedd y Cyngor yn y 14eg safle yn 2011-12.

32 Yn dilyn ein hadolygiad o drefniadau rheoli gwastraff yn 2011, gwnaethom nifer o gynigion ar gyfer gwella ac mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd wrth ymdrin â llawer ohonynt. Er enghraifft, mae'n parhau i farchnata ei wasanaethau ailgylchu gwastraff er mwyn gwella cyfraddau cyfranogi. Fodd bynnag, er bod y Cyngor bellach yn anelu at lunio strategaeth rheoli gwastraff ddrafft erbyn mis Mawrth 2013, bu'r cynnydd wrth ddatblygu'r strategaeth yn araf.

## Mae newidiadau yn digwydd ar raddfa gyflymach yn y Gwasanaethau i Oedolion ac mae'r Cyngor wedi gweithio'n galed i drawsnewid Gwasanaethau i Blant ond mae angen iddo wneud mwy i ddangos ei fod yn cyflawni canlyniadau da i bob unigolyn ymhob un o'r meysydd gwasanaethau cymdeithasol

33 Cyhoeddodd AGGCC ei *Hadolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol 2011-2012* ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghasnewydd ym mis Hydref 2012. Mae'r adroddiad gwerthuso yn amlinellu nifer o feysydd lle y gwnaed cynnydd yn ogystal â meysydd i'w gwella neu eu datblygu. Gellir gweld yr adroddiad ar wefan AGGCC: (http://cymru.gov.uk/cssiwsubsite/newcssiw/publications/lareviews/20112/?lang=cy). Daw'r paragraffau canlynol o'r adroddiad.

34 'Mae gwasanaethau cymdeithasol Casnewydd wedi gweithio'n galed i weddnewid y Gwasanaethau i Blant, ac mae hyn wedi cynnwys sefydlu'r Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd Integredig yn rhan o gynllun peilot cenedlaethol. Maent wedi lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal a nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant trwy gyflwyno gwasanaethau atal a gwasanaethau ymyriad â chanolbwynt iddo. Mae hyn yn cyd-fynd â'u cyfeiriad strategol.

35 Mae cyflymder y newid yn y Gwasanaethau i Oedolion wedi cynyddu. Mae gwaith partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn agwedd allweddol ar y ffordd y mae gwasanaethau'n gweithio. Mae integreiddiad Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi ei feithrin gan nifer y swyddi integredig

o Bennaeth y Gwasanaeth i Reolwyr Gwasanaeth. Er enghraifft, mae uwch reolwyr yn y ddau sefydliad yn ystyried swyddogaethau cymorth busnes wedi'u cyfuno, ac yn bwriadu ffurfio un uned cynllunio a phartneriaeth yn y tymor canolig. Sefydlwyd Rhaglen Eiddilwch Gwent â brwdfrydedd, a nodwyd rhai llwyddiannau nodedig. Mae Casnewydd wedi bod yn awyddus i ddathlu ei dreftadaeth amrywiol ac mae wedi hyrwyddo gwaith i gynorthwyo gwell dealltwriaeth rhwng gwahanol gymunedau'.

36 Nododd AGGCC fod gan y Cyngor 'ragor o waith i'w wneud i ddangos ei fod yn cyflawni canlyniadau da i bob unigolyn ar draws pob maes gwasanaeth. Mae ganddo rai enghreifftiau rhagorol o ddarparu gwasanaethau. Fodd bynnag, er y ceir rhai mentrau fel strwythur ffioedd sy'n seiliedig ar ansawdd, roedd ganddo rai enghreifftiau hefyd o wasanaethau gofal preswyl a gomisiynwyd i oedolion sydd wedi cael trafferth i ddiwallu anghenion y preswylwyr a'u cadw'n ddiogel'.

37 Nododd AGGCC dair enghraifft o arfer da: Canolfan Blant Serennu; y prosiect Plant ar Goll; a'r prosiect Ffioedd Cartrefi Gofal yn seiliedig ar Ansawdd. Nododd hefyd wasanaethau amddiffyn oedolion a chynnal adolygiadau fel dau faes risg.

38 O ran perfformiad y Cyngor, ceir darlun cymysg o welliant:

- Mae'r Cyngor wedi lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal o 283 yn 2011 i 278 yn 2012.
- Dirywiodd perfformiad mewn perthynas ag achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal, fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu drosodd, o 3.61 yn 2010-11 i 5.78 yn 2011-12 ac mae'n waeth na chyfartaledd Cymru, sef 5.03. Nid yw'r dirywiad yng Nghasnewydd yn unol â'r duedd ledled Cymru lle mae achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yn gwella o gyfartaledd o 5.76 yn 2010-11 i 5.03 yn 2011-12. Yn 2010-11, roedd y Cyngor yn y 7fed safle allan o 22 o gynghorau yng Nghymru, ac mae ei berfformiad yn 2011-12 yn golygu ei fod bellach yn y 15fed safle. Yn 2011-12, sef ei flwyddyn gyntaf, ffocws Prosiect Eiddilwch Gwent oedd rhoi blaenoriaeth i'r trefniadau ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Er gwaethaf y ffaith bod y Tîm Adnoddau Cymunedol yn hwyluso'r trefniadau ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty, mae perfformiad wedi dirywio.
- Mae nifer y bobl hŷn a gafodd gymorth i fyw gartref, fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu drosodd, wedi gostwng o 85.77 yn 2010-11 i 77.48 yn 2011-12 ac mae ymhell islaw cyfartaledd Cymru, sef 78.6. Yn 2010-11, roedd y Cyngor yn y 8fed safle allan o 22 o gynghorau yng Nghymru, ac mae ei berfformiad yn 2011-12 yn golygu ei fod yn y 10fed safle.
- Er bod nifer y bobl dros 65 oed sy'n byw mewn cartrefi gofal wedi cynyddu o gyfradd o 19.19 fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu drosodd yn 2010-11 i 19.59 yn 2011-12, mae'n parhau'n well na chyfartaledd Cymru, sef 21.35. Yn 2010-11, roedd y Cyngor yn y 5ed safle allan o 22 o gynghorau yng Nghymru, ac mae ei berfformiad yn 2011-12 yn golygu ei fod yn y 6ed safle.

- Mae'r amser a gymerir i wneud addasiadau i bobl anabl wedi gwella ychydig o gyfartaledd o 646 o ddiwrnodau yn 2010-11 i gyfartaledd o 638 o ddiwrnodau yn 2011-12 ond dyma'r amseroedd hwyaf yng Nghymru ac maent ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef 326 o ddiwrnodau.

39 Mae'r Cyngor yn wynebu heriau sylweddol wrth ymdrin â'r materion hyn a sicrhau gwell canlyniadau i'w ddinasyddion. Mae'r heriau yn cynnwys ymdrin â phwysau sylweddol ar y gyllideb a'r gorwariant o bron i £3.9 miliwn a ragwelir o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2012-13 a chyfraddau absenoldeb oherwydd salwch uchel.

## Bu rhai gwelliannau o ran y gwasanaethau sy'n cyfrannu at amcanion gwella eraill ond oherwydd cyfyngiadau yn nefnydd y Cyngor o fesurau perfformiad, mae weithiau'n anodd asesu cyflawniadau a gwelliannau yn llawn

40 Mae gan y Cyngor amcan gwella Delwedd Gadarnhaol sy'n cynnwys hyrwyddo Casnewydd i dwristiaid a throsglwyddo'r broses o reoli Tŷ Tredegar[8] i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Cynyddodd nifer y twristiaid o ychydig dros 2 filiwn yn 2009 i ychydig dros 2.5 miliwn yn 2011-12 ac roedd yn sylweddol uwch na'r disgwyl. Cwblhawyd nifer o brosiectau wedi'u hanelu at gynyddu nifer yr ymwelwyr, er enghraifft, gwaith i reoli coetiroedd a gweundiroedd, trosglwyddwyd Tŷ Tredegar yn llwyddiannus i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ym mis Mawrth 2012 a gwaith parhaus ar y llwybr seiclo o Gaerllion i Ganol y Ddinas.

41 Mae'r Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd wrth gyflawni ei amcan gwella Cwsmeriaid; agorodd yr Orsaf Wybodaeth wyneb-yn-wyneb ym mis Ionawr 2012, sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau'r Cyngor a chyswllt â Heddlu Gwent a'r Bwrdd Iechyd hefyd. Sefydlwyd gwasanaeth Gwasanaethau Stryd integredig hefyd gyda'r nod o ddarparu dull gweithredu 'un stop' i'r cyhoedd roi gwybod am broblemau. Mae'n anodd gwerthuso gwelliant gan nad oes gan nifer o'r mesurau a ddefnyddir gan y Cyngor gymariaethau hanesyddol, er enghraifft:

- Er bod y Cyngor yn nodi lefel boddhad cwsmeriaid o 91.8 y cant yn 2011-12, nid oes unrhyw gymhariaeth hanesyddol ar gael. Ym mis Ebrill 2011, cyflwynodd y Cyngor bolisi cwyno a chanmol corfforaethol dau gam a dechreuodd gofnodi'r holl enghreifftiau o gwynion a chanmoliaeth a dderbyniwyd ganddo. O ran y cwynion a gafwyd, cafodd y Cyngor 357 o gwynion cam 1[9] ac 18 o gwynion cam 2[10] yn ystod 2011-12. Nododd y Cyngor mai dim ond 43 y cant o'r cwynion a ddatryswyd o fewn terfyn amser y Cyngor o 20 diwrnod.

42 Gostyngodd cwynion i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus o 32 yn 2010-11 i 17 yn 2011-12, cafwyd gostyngiad hefyd yn nifer y cwynion yr ymchwiliodd yr Ombwdsmon iddynt (un yn 2011-12 o gymharu â thair yn 2010-11)

8 Mae Tŷ Tredegar yn enghraifft o blasty Charles II o'r 17eg ganrif

9 Cwyn Cam 1. Cynlluniwyd y cam hwn i ymdrin â chwynion neu bryderon cychwynnol a chaiff ei roi ar waith gan y maes gwasanaeth y mae'r gŵyn yn berthnasol iddo.

10 Bydd un o uwch swyddogion y Cyngor yn ymdrin â chwynion Cam 2, a all fod yn annibynnol ar y gwasanaeth y gwnaed y cwyn yn ei gylch.

a chadarnhawyd un gŵyn. Yn ei *Lythyr Blynyddol 2011-12* at y Cyngor, nododd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ei bod ‘yn braf sylwi ar ostyngiad yn nifer y cwynion a ddaeth i law fy swyddfa a nifer y cwynion y cynhaliwyd ymchwiliad iddynt, o’i gymharu â’r ffigurau ar gyfer 2010-11. Mae’r ffigurau hyn hefyd yn is na’r ffigurau cyfartalog ar gyfer Awdurdodau Lleol. Mae’r nifer fwyaf o gwynion yn ymwneud â Chynllunio a Rheoli Adeiladu o hyd, er y bu gostyngiad amlwg yn nifer y cwynion sy’n ymwneud â Gwasanaethau Cymdeithasol Plant. Mae’r amseroedd ymateb ar gyfer eich Awdurdod yn dangos bod angen gwella yn y maes hwn.’

43 Mae gan y Cyngor amcan gwella *Chi*, a oedd yn cynnwys camau gweithredu i helpu cyflogeion i gyflawni eu llawn botensial. Mae’r Cyngor wedi ymgymryd â nifer o weithgareddau sy’n ymwneud â hyfforddiant a datblygiad, iechyd a diogelwch a rheoli absenoldeb. Yn ystod 2011-12, cafodd 2, 160 (68 y cant) o gyflogeion gyfarfod adolygu. Dim ond un mesur perfformiad sydd gan y Cyngor ar gyfer yr amcan gwella penodol hwn ac mae’n ymwneud ag absenoldeb oherwydd salwch. Yn 2011-12, nifer y diwrnodau (cyfwerth ag amser llawn) a gollwyd o ganlyniad i absenoldeb oherwydd salwch oedd 10.42 a chyfartaledd Cymru oedd 10.4. Mae’r gyfradd absenoldeb oherwydd salwch yn 2011-12 ychydig yn uwch na’r flwyddyn flaenorol, pan gollwyd 10.06 o ddiwrnodau oherwydd salwch, ac mae’n uwch na’r targed a bennwyd gan y Cyngor iddo’i hun yn 2011-12, sef 10 diwrnod.

44 Crëwyd rôl Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Dros amser, daw pwerau newydd i orfodi safonau ar sefydliadau i rym drwy ddeddfwriaeth. Tan hynny, bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg drwy rinwedd pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

45 Mae’r Comisiynydd yn gweithio gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru i arolygu cynlluniau iaith a rhoi cyngor ar y broses o’u rhoi ar waith. Mae cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau i’r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â’r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob awdurdod lleol yn ymrwymedig i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i’r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth roi’r cynllun iaith ar waith. Mae’r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro; yn darparu ymateb ffurfiol ac yn casglu rhagor o wybodaeth fel y bo’n ofynnol. Mae sylwadau’r Comisiynydd mewn perthynas â Chasnewydd fel a ganlyn:

46 ‘Sefydlodd y Cyngor Gomisiwn Tegwch yn ystod 2011-12, er mwyn sicrhau na chaiff polisïau a chynigion cyllidebol effaith negyddol ar grwpiau lleiafrifol. Bydd y Comisiwn Tegwch yn rhoi ystyriaeth briodol i’r Gymraeg wrth iddo barhau i fwrw ati â’i waith. Yn ogystal, mae’r Cyngor bellach yn ystyried y Gymraeg ochr yn ochr â nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig eraill a enwir yn Neddf Cydraddoldebau 2010. Mae’r Cyngor wedi dangos ei ymrwymiad i gefnogi’r iaith drwy fuddsoddi arian ychwanegol mewn adnoddau Cymraeg yn Llyfrgelloedd y Ddinas. Serch hynny, ni wnaed unrhyw gynnydd arwyddocaol wrth

roi Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor ar waith ar lefel gorfforaethol yn ystod 2011-12, a methodd â chynnig unrhyw gyrsiau ffurfiol i staff er mwyn gwella eu hymwybyddiaeth o'r Cynllun Iaith Gymraeg. Mae llunio rhaglen o gyrsiau ymwybyddiaeth i staff yn un o dargedau allweddol y Cyngor yn ystod y flwyddyn i ddod. Er bod y Cyngor yn ymrwymedig i ddatblygu dwyieithrwydd ar ei wefan, nid oedd y cynnydd disgwyliedig i'w weld yn ystod 2011-12. Bydd datblygu'r wefan yn flaenoriaeth i'r Cyngor yn ystod 2013.'

## Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd wrth sefydlu'r adnodd Gwasanaethau Eiddo newydd ond mae gwendidau mewn rheoli strategol, gwybodaeth am asedau a chynllunio buddsoddiadau yn parhau i lesteirio gwelliannau hir-dymor

47 Yn 2011, cafodd gwaith y Cyngor ar reoli asedau a'i gynigion ar gyfer ail-drefnu darpariaeth yr adnodd Gwasanaethau Eiddo ei adolygu gennym. Yn rhan o'r ail-drefnu oedd creu Is-adran Eiddo newydd o fewn y Gwasanaeth Adfywio a Rheoleiddio a oedd yn cynnwys rheoli asedau. Roedd ein hadolygiad yn canolbwyntio ar asesu os oedd y Cyngor yn sefydlu tîm Gwasanaethau Eiddo effeithiol i ddarparu ei flaenoriaethau rheoli asedau corfforaethol, a daethpwyd i'r casgliad fod y Cyngor yn gwneud cynnydd wrth sefydlu'r adnodd Gwasanaethau Eiddo newydd ond bod gwendidau mewn rheoli strategol, gwybodaeth am asedau a chynllunio buddsoddiadau yn parhau i lesteirio gwelliannau hir-dymor.

48 Mae'r Cyngor wedi cynnal nifer o weithgareddau er mwyn mynd i'r afael â materion o ran ei swyddogaethau a gweithgareddau Rheoli Asedau. Sefydlwyd gwasanaeth newydd o'r enw Gwasanaethau Eiddo, sydd wedi ei leoli yn y Gwasanaethau Adfywio a Rheoleiddio, ac fe gafodd y strwythur newydd ei roi mewn lle yn ystod 2012-13. Er fod gan y Cyngor Strategaeth Eiddo Corfforaethol a Chynllun Rheoli Asedau Strategol lefel uchel, mae gwaith wedi cael ei gyflawni er mwyn ei ddatblygu ymhellach i fod yn strategaeth lawn. Mae gweithgareddau eraill yn cynnwys: penodi Rheolwr Systemau Busnes; datblygu dangosyddion perfformiad newydd; rhoi system rheoli gwybodaeth eiddo mewn lle; penodi partner gwaredu; ailgynnull y Grŵp Rheoli Asedau Strategol; datblygu arweiniad a chanllawiau; mabwysiadu prosesau a rheoliadau sydd wedi eu hadolygu ar gyfer cymeradwyo newidiadau'r Rhaglen Cyfalaf. Mae nifer o gamau a gweithgareddau wedi eu cymryd yn ystod 2012-13, ac o'r herwydd, mae hi'n rhy gynnar i asesu'r graddau y mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â'r cynigion rheoli asedau a byddwn yn parhau i fonitro sut mae'r Cyngor yn datblygu ei ddull o ddelio â rheoli asedau.

## Mae'r Cyngor wedi gwneud nifer o newidiadau i'r ffordd y mae'n darparu budd-daliadau tai ond nid ydynt wedi arwain at welliannau i'r gwasanaeth eto

49 Yn ystod 2011-12, gwnaeth y Cyngor nifer o newidiadau i'r ffordd y mae'n gweinyddu ei wasanaeth budd-daliadau, y mae'n rhagweld y byddant yn arwain at welliannau yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys gwella ei wefan er mwyn rhoi mwy o wybodaeth am fudd-daliadau, datblygu'r cyfleusterau 'Siop Un Stop' a rhoi system rheoli dogfennau electronig ar waith. Er bod y newidiadau hyn wedi cael eu rhoi ar waith, nid yw'r perfformiad ar ddau ddangosydd allweddol wedi gwella:

- Mae'r amseroedd prosesu ar gyfer ceisiadau newydd wedi cynyddu o 22 diwrnod yn 2010-11 i 24 diwrnod yn 2011-12. Mae hyn yn hirach na chyfartaledd Cymru, sef 20 diwrnod. Gwaethygodd perfformiad ymhellach yn ystod dau chwarter cyntaf 2012-13. Mae hyn yn parhau'n faes i'r Cyngor ganolbwyntio arno ac yn un y byddwn yn parhau i'w fonitro.

- Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd a gymerwyd i brosesu hysbysiadau newid mewn amgylchiadau yn ystod 2011-12 oedd wyth diwrnod, sef yr un perfformiad â'r flwyddyn flaenorol ac yn hwy na chyfartaledd Cymru, sef saith diwrnod.

50 Mae'r Cyngor yn un o blith 12 o safleoedd peilot cenedlaethol i'r Adran Gwaith a Phensiynau wrth iddi lansio 'cynhwysiant digidol' i bob un sy'n hawlio Credyd Cynhwysol ar-lein.

## Bu hunanwerthusiad y Cyngor o berfformiad yn wan gan lesteirio ei ymdrechion i reoli perfformiad, ei werthuso, cyflwyno adroddiadau arno a'i wella. Mae'r Cyngor yn cydnabod y materion hyn ac yn ymateb mewn ffordd gadarnhaol

51 Yn yr ail Lythyr Asesiad Gwella i'r Cyngor (Rhagfyr 2012), nodwyd gennym fod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur; fodd bynnag, dylai sicrhau ei fod yn cydymffurfio mwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cyngor drefniadau gweithredol cyson i sicrhau hunanwerthusiadau effeithiol. Ni lwyddodd adolygiad y Cyngor o'i berfformiad[11] ei hun i werthuso perfformiad nac i ddangos pa un a gyflawnodd ei amcanion gwella neu well canlyniadau i ddinasyddion.

52 Nodwyd gennym yn flaenorol fod cyfyngiadau yn sail dystiolaeth y Cyngor. Ni ddefnyddiodd y dystiolaeth a oedd ar gael iddo, ac a ddefnyddir gan wasanaethau, yn effeithiol i werthuso ei berfformiad a'i welliant. Ynghyd â diffyg amcanion gwella wedi'u mynegi'n glir, cyfyngodd hyn ar allu'r Cyngor i ddangos lle y mae wedi gwella neu lle nad yw wedi gwella, pa un a yw wedi cyflawni ei amcanion gwella, neu pa un a yw dinasyddion yn well eu byd.

53 Canfu ein gwaith fod nifer o faterion a rwystrodd y Cyngor yn sylweddol rhag gallu rheoli perfformiad, cyflwyno adroddiadau arno, ei werthuso a'i wella yn effeithiol yn ystod 2011-12 gan gynnwys:

- systemau adrodd tameidiog;
- anghysondebau rhwng y wybodaeth sydd ar gael o fewn meysydd gwasanaeth a'r wybodaeth a ddefnyddir ar lefel gorfforaethol;
- gwendidau o ran cynllunio gwasanaethau;
- cyfyngiadau wrth ddatblygu camau gweithredu a mesurau ar gyfer amcanion gwella.

54 Cafwyd gennym fod amrywiaeth eang o wybodaeth am berfformiad a gwybodaeth ddefnyddiol arall yn cael ei chasglu a'i defnyddio o fewn meysydd gwasanaeth a chyflwynir adroddiadau rheolaidd ar y wybodaeth honno ar nifer o wahanol lefelau rheoli o fewn y sefydliad yn ogystal ag i Aelodau. Fodd bynnag, roedd gwendidau yn y broses o ddewis a chyflwyno'r wybodaeth hon yn golygu na allai'r Cyngor werthuso na defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i lunio barn am ba mor dda roedd yn perfformio ac yn cyflawni ei amcanion gwella. Mae'r gwendidau hyn wedi ei gwneud hi'n anodd i Aelodau a swyddogion werthuso sut mae'r Cyngor yn perfformio mewn perthynas â'i amcanion gwella.

55 Mae'n ofynnol i bob gwasanaeth lunio cynllun gwasanaeth ar ddechrau pob blwyddyn ariannol a chaiff ei adolygu bob chwe mis gan y swyddogaeth graffu. Nid oes llawer o gynlluniau yn cynnwys mesurau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i ddangos effaith a chanlyniadau i ddefnyddwyr. Nid oes gan wasanaethau berchenogaeth dros amcanion gwella gan nad yw'r cynlluniau gwasanaeth yn adlewyrchu'n glir bob amcan gwella sy'n berthnasol iddynt. Mae hyn yn golygu nad yw cynlluniau gwasanaeth presennol y Cyngor yn ei helpu i fonitro a gwerthuso'r broses o gyflawni ei amcanion gwella.

11 Adolygiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Dinas Casnewydd 2011/12.

56 Mae’r Cyngor yn cydnabod y gwendidau hyn a’r angen i wella atebolrwydd a threfniadau rheoli perfformiad ac mae wedi dechrau gwneud newidiadau i’r ffordd y cyflwynir adroddiadau ar ddata perfformiad. Mae hefyd yn ymrwymedig i atgyfnerthu trefniadau rheoli perfformiad drwy ei Fwrdd Perfformiad drwy sicrhau bod atebolrwydd ar gyfer sicrhau gwelliant, trawsnewidiadau ac effeithlonrwydd yn glir ymhob rhan o’r sefydliad. Mae’r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i’n gwaith a gallwn weld rhywfaint o dystiolaeth bod trefniadau yn dechrau newid.

57 Mae angen i bob cyngor gael gwybodaeth dda a’i defnyddio’n dda er mwyn iddo ddarparu gwasanaethau da a’u gwella. Mae gan y Cyngor systemau sefydledig ar gyfer casglu dangosyddion perfformiad ac rydym wedi archwilio’r systemau hyn yn ddiweddar i asesu effeithiolrwydd a dibynadwyedd y trefniadau hyn. Mae’r mesurau a ddewiswyd gennym i’w harchwilio yn fesurau a ddefnyddir gan y Cyngor i farnu pa mor dda y mae’n cyflawni ei amcanion gwella a ph’un a yw’n gwneud gwahaniaeth i’w ddinasyddion.

58 Cafwyd gennym yn gyffredinol bod gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar waith ar gyfer casglu, cofnodi a monitro dangosyddion perfformiad ond mae angen gwella cywirdeb yr adroddiadau a gyflwynir. O’r 42 o fesurau a archwiliwyd gennym, cafodd un ei amodi a bu’n rhaid cywiro pump oherwydd gwallau. Er gwaethaf y ffaith bod systemau ar waith i gasglu a chofnodi mesurau perfformiad, mae angen i’r Cyngor wella cywirdeb ffigurau a gyhoeddir mewn adroddiadau. Mae dadansoddiad ar wahân o’r dangosyddion perfformiad a gynhwysir yn *Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2011-12* y Cyngor yn datgelu bod pump o’r dangosyddion wedi’u camddyfynnu a bod ffigurau sy’n ymwneud â’r prosiect sgiliau a diweithdra hefyd wedi’u camddyfynnu.

59 Rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ei farn ar gyfrifon y Cyngor yn ddiweddar ac yn seiliedig ar hyn, mae’r Archwilydd Penodedig o’r farn bod y datganiadau ariannol yn foddhaol yn gyffredinol. Ceir mwy o fanylion yn Atodiad 3.

## Nid yw'n glir pa un a yw'r Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod 2012-13. Bu cyflymder gwelliannau yn araf mewn rhai meysydd allweddol ac mae'n wynebu penderfyniadau anodd er mwyn cyflawni tua £27 miliwn o arbedion yn ystod y pum mlynedd nesaf

### Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i atgyfnerthu trefniadau atebolrwydd er mwyn gwella perfformiad ac effeithlonrwydd

60 Yn ein *Llythyr Asesiad Gwella* cyntaf i'r Cyngor (Hydref 2012), nodwyd gennym y bu nifer o newidiadau o ran uwch reolwyr yn ystod 2012. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r flwyddyn, bu'r Cyngor yn gweithredu strwythur uwch reolwyr interim tra'n aros am ganlyniad etholiadau mis Mai 2012. Ymddiswyddodd y Rheolwr Gyfarwyddwr blaenorol ym mis Hydref 2012 i ymgymryd â swydd gyda chyngor yn Lloegr, a dechreuodd Prif Weithredwr newydd Cyngor Dinas Casnewydd yn ei swydd ym mis Ionawr 2013.

61 O ganlyniad i etholiadau mis Mai 2012, newidiodd Gweinyddiaeth y Cyngor. Aelodau'r grŵp Llafur sydd bellach yn llenwi 37 o 50 o seddau'r Cyngor. Comisiynodd y Cyngor newydd ymgynghorwyr allanol i adolygu ei strwythur uwch reolwyr. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen i'w strwythur rheoli newydd ymdrin â materion allweddol fel: twf economaidd; capasiti strategol; cydnawsedd ac atebolrwydd; cyfrifoldeb ac arloesedd yn ogystal â gwerth am arian. Mae'n cydnabod y dylai perfformiad a thrawsnewid fod wrth wraidd yr hyn a wna ac mae'n bwriadu atgyfnerthu'r ffocws ar drawsnewid i helpu gwasanaethau i sicrhau arbedion a symud i fodelau darparu amgen. Er mwyn sicrhau bod penaethiaid gwasanaeth yn atebol, cynhelir adolygiad sylfaenol o gynlluniau gwasanaeth a phrosesau cynllunio busnes (gan gynnwys dangosyddion perfformiad) er mwyn pennu beth yn union y mae angen ei ddarparu. Mae'r strwythur rheoli newydd wrthi'n ymsefydlu ar hyn o bryd o dan gyfarwyddyd y Prif Weithredwr newydd.

62 Mae'r Cyngor hefyd yn bwriadu atgyfnerthu rôl y swyddogaeth graffu ac ymdrin â phryderon o ran yr anghydbwysedd gwaith rhwng y fforymau craffu a diffyg ffocws a chanlyniadau ystyrlon. Fel rhan o'r trefniadau newydd, mae tri phwyllgor craffu wedi disodli'r chwe fforwm trosolwg a chraffu blaenorol. Yn ei Gynllun Corfforaethol, mae'r Cyngor wedi nodi ei fwriadau o ran ei gyfeiriad strategol a'i uchelgeisiau gwella ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i atgyfnerthu trefniadau rheoli perfformiad drwy ei Fwrdd Perfformiad drwy sicrhau bod atebolrwydd ar gyfer sicrhau gwelliant, trawsnewidiadau ac effeithlonrwydd yn glir ymhob rhan o'r sefydliad.

63 Yn ein *Llythyr Asesiad Gwella* cyntaf i'r Cyngor (Hydref 2012), nodwyd gennym fod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliant o dan y Mesur. Fodd bynnag, dylai sicrhau ei fod yn cydymffurfio mwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Ym mis Medi 2012, cyhoeddodd y Cyngor ei chwe blaenoriaeth gwella a chanlyniad trawsbynciol ar gyfer y pum mlynedd nesaf a 24 o flaenoriaethau gwella ar gyfer 2012-13 yn ei *Gynllun Gwella 2012-2013 Delivering a better Newport* (y Cynllun) gweler Atodiad 4 am fanylion. Mae'r Cynllun yn cynnwys blaenoriaethau gwella ar gyfer 2012-13, mesurau perfformiad a disgrifiad o'r camau gweithredu i'w cymryd.

64 Mae llawer o'r camau gweithredu y cyfeirir atynt yn y Cynllun yn cyfrannu at y blaenoriaethau gwella a'r canlyniadau trawsbynciol ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae gan bob un o'r 24 o flaenoriaethau

gwella ar gyfer 2012-13 nifer gyfyngedig o fesurau na fyddant bob amser yn helpu'r Cyngor i ddangos pa un a yw wedi cyflawni'r flaenoriaeth neu pa un a yw dinasyddion yn well eu byd o ganlyniad. Nid yw'r cysylltiadau rhwng camau gweithredu, blaenoriaethau gwella a mesurau i ddangos cyflawniad bob amser yn glir a bydd yn anodd i'r Cyngor fesur a gwerthuso effaith yn hawdd.

65 Er bod y Cyngor yn nodi ei fod yn defnyddio dull rheoli perfformiad sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau (Atebolrwydd yn Seiliedig ar Atebolrwydd neu RBA), nid yw'n amlwg yn y Cynllun. Er enghraifft, yn *Mae Casnewydd yn Ddinas Ddiogelach*, mae'r flaenoriaeth gwella ar gyfer 2012-13, sef sicrhau bod seilwaith y ddinas yn ddiogel ac wedi'i gynnal a'i gadw mewn cyflwr da yn cynnwys mesur sy'n ymwneud â chyflwr y ffyrdd. Gallai dull gweithredu wedi'i seilio fwy ar ganlyniadau ddefnyddio mesurau sy'n dangos effaith ffyrdd wedi'u cynnal a'u cadw mewn cyflwr da, megis gostyngiadau yn nifer y damweiniau traffig, anafiadau a marwolaethau. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen atgyfnerthu ei ddull gweithredu er mwyn canolbwyntio mwy ar fesur canlyniadau ac mae'n bwriadu gwneud hyn drwy ei drefniadau rheoli perfformiad diwygiedig.

66 Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn nodi gofynion penodol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'n ofynnol iddynt ddatblygu a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb a chynllun cydraddoldeb strategol erbyn mis Ebrill 2012. Mae'r gofyniad i lunio amcanion cydraddoldeb yn cyd-fynd â'r elfen 'tegwch' y mae'n rhaid i awdurdodau ei hystyried wrth bennu amcanion gwella o dan y Mesur. Nid yw'r Cyngor wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar ei amcanion gwella ond mae wedi gwneud hynny ar ei Gynllun Gwella. Serch hynny, ceir tystiolaeth bod y Cyngor o'r farn bod tegwch yn bwysig ac mae ganddo amcan gwella trawsbynciol - Mae Casnewydd yn Ddinas Decach - sy'n cynnwys cam gweithredu i sefydlu Comisiwn Tegwch â chadeirydd annibynnol. Ceir cysylltiadau clir rhwng amcanion cydraddoldeb y Cyngor a rhai o themâu'r Cynllun, er enghraifft: cam-drin yn y cartref; cydlyniad cymunedol; a diweithdra.

## Mae gan y Cyngor hanes da o reoli ei gyllideb ond mae'n cydnabod bod angen gwella ei ddull o gynllunio ariannol tymor canolig, felly hefyd y ffordd y caiff arbedion eu dosbarthu a'u hadrodd. Mae cynghorwyr yn wynebu rhai penderfyniadau anodd er mwyn ymdrin â'r bwlch ariannu £27 miliwn dros y pum mlynedd nesaf.

67 Yn ein *Llythyr Asesiad Gwella* cyntaf i'r Cyngor (Hydref 2012), nodwyd gennym fod y Cyngor, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi bod yn gweithio i wella ei brosesau rheoli a chynllunio ariannol. Mae gan y Cyngor hanes o reoli o fewn ei gyllideb ac yn 2011-12, roedd wedi tanwario £3.4 miliwn. Mae balans Cronfa'r Cyngor, ac eithrio balansau ysgolion, wedi parhau ar lefel y cytunwyd arni, sef £5 miliwn, a llwyddwyd i gynnal lefel y cronfeydd refeniw wrth gefn a glustnodwyd ar y cyfan, a oedd yn £64 miliwn ar ddiwedd 2011-12.

68 Hwyluswyd perfformiad ariannol y Cyngor yn 2011-12 gan y canlynol: rhaglen o arbedion ariannol; y ffaith nad oedd y gwariant mewn rhai meysydd mor uchel ag a ragwelwyd; y ffaith bod incwm yn uwch na'r lefel a amcangyfrifwyd; a phwysau chwyddiannol a oramcangyfrifwyd. Gwnaethom adolygu nifer o adroddiadau monitro ariannol a chyllidebol diweddar, ac ymddengys fod yr arbedion yn cwmpasu amrywiaeth o ostyngiadau mewn gwariant. Mae angen i'r Cyngor gytuno ar ddiffiniad gweithredol o 'arbedion' a gaiff ei ddeall ymhob rhan o'r sefydliad er mwyn sicrhau cysondeb ac eglurder wrth gyflwyno adroddiadau.

69 Ar ddiwedd 2011-12, roedd gan y Cyngor tua £65 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn y gellid eu defnyddio, sef cynnydd o tua £800,000. Ni ddefnyddiwyd yr un o'r cronfeydd wrth gefn hyn i fantoli'r gyllideb ar gyfer 2012-13 ond gwnaed trosglwyddiadau i gefnogi cynlluniau arbedion fel y gronfa 'Buddsoddi i Arbed' wrth gefn. Mae'r Cyngor yn cadw ei Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn ar isafswm lefel o £5 miliwn ac nid oes ganddo unrhyw fwriad ar hyn o bryd i ddefnyddio unrhyw ran o'r balans hwn i ategu ei wariant 'yn ystod y flwyddyn'.

70 Ym mis Hydref 2012, roedd y Cyngor yn rhagamcanu gorwariant o tua £1.9 miliwn ar ei gyllideb refeniw ar gyfer 2012-13 o ganlyniad, yn bennaf, i bwysau ariannol ar ei Adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn rhagamcanu y bydd yn llwyddo i fantoli ei gyllideb alldro ariannol ar gyfer 2012-13 oherwydd gellir rheoli'r gorwariant 'yn ystod y flwyddyn' o fewn ei gyllideb sylfaen wrth gefn o £2 filiwn. Bydd hyn yn lleihau'r adnoddau y gellir eu credydu i'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer 2013-14.

71 Cydnabu'r Cyngor fod angen cydgysylltu ei drefniadau cynllunio ariannol yn well a'u cysoni drwy Gynllun Ariannol Tymor Canolig wedi'i atgyfnerthu er mwyn iddo ddod yn un o'r ffactorau allweddol wrth helpu'r Cyngor i reoli ei bwysau ariannol a chyflawni ei flaenoriaethau gwella dros gyfnod amser hwy. Yn ddiweddar, ehangodd y Cyngor ei orwel cynllunio hyd at 2017-18 ac mae wrthi'n datblygu rhaglen drawsnewid tymor hwy i ymdrin â heriau ariannol y dyfodol.

72 Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig cyfredol y Cyngor yn nodi heriau ariannol sylweddol yn ystod y blynyddoedd nesaf o ganlyniad i'r gostyngiadau a ragwelir yn yr arian a gaiff gan y Llywodraeth ar gyfer gwariant refeniw a chyfalaf a mwy o alw am rai gwasanaethau. Mae'r Cyngor wedi amcangyfrif bod ganddo fwlch ariannu o bron i £27 miliwn dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r bwlch ariannu ar gyfer 2013-14 ychydig dros £8 miliwn. Mae'r Cyngor eisoes wedi nodi arbedion o £12 miliwn y cred y gellir eu cyflawni heb gael unrhyw effaith ar wasanaethau rheng flaen.

73 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod llawer mwy o waith i'w wneud er mwyn symud at sefyllfa ariannol gynaliadwy a bod angen penderfyniadau anodd er mwyn cyflawni ei flaenoriaethau o ystyried bod yr adnoddau sydd ar gael iddo yn lleihau.

## Mae'r Cyngor yn parhau i wneud rhywfaint o gynnydd wrth ymdrin â'n cynigion ar gyfer gwella ond mae'n cydnabod mewn rhai achosion y bu cynnydd yn araf a bod anghysondebau yn y ffordd y rheolodd ein canfyddiadau ac yr ymdriniodd â hwy

74 Yn ein Llythyr Asesiad Gwella cyntaf i'r Cyngor (Hydref 2012), nodwyd gennym fod y Cyngor yn cydnabod mai cymysg fu'r cynnydd yn erbyn llawer o'n cynigion ar gyfer gwella. Bwriedir ymgymryd â rhywfaint o waith i ymdrin â'n cynigion yn ystod 2012-13, er enghraifft: gwella'r broses o reoli asedau'r Cyngor a datblygu strategaeth rheoli asedau; a datblygu strategaeth rheoli gwastraff integredig.

75 Mae'n galonogol nodi bod y Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i'n gwaith yn ystod y flwyddyn a bod tystiolaeth bod y Cyngor yn gwella cyflymder newid ac yn dechrau ymdrin â materion gan gynnwys: ehangu ei orwel cynllunio ariannol tymor canolig; ymdrin â gwendidau yn ei drefniadau rheoli perfformiad; a rhoi systemau ar waith i gydgysylltu adroddiadau gan reoleiddwyr allanol a'u rheoli.

76 Nododd AGGCC hefyd fod y Cyngor wedi ymateb i'w feysydd i'w datblygu a'i fod wedi darparu tystiolaeth o gynnydd mewn perthynas â'r rhan fwyaf o'r meysydd gwella a nodwyd yn adroddiad gwerthuso perfformiad y llynedd.

## Mae partneriaid yn ymrwymedig iawn i weledigaeth rhaglen Eiddilwch Gwent ac maent wedi llunio fframwaith rheoli rhaglen cadarn i'w hategu. Megis dechrau y mae'r gwaith o weithredu rhaglen Eiddilwch Gwent ac erys heriau i sicrhau ei bod yn gynaliadwy, newid ymddygiad sefydledig a dangos ei heffaith.

77 O fis Ebrill 2011 dechreuodd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a Chynghorau Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen roi model integredig uchelgeisiol o iechyd a gofal cymdeithasol ar waith, sef Rhaglen Eiddilwch Gwent. Mae gan y Rhaglen statws cyfreithiol o dan gytundeb Partneriaeth Adran 33[12] rhwng y Bwrdd Iechyd a'r pum awdurdod lleol ac fe'i cefnogir gan £6.9 miliwn o Gronfa Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru. Mae nodau'r Rhaglen yn berthnasol iawn i'r ffordd y mae'r cyrff sector cyhoeddus dan sylw yn defnyddio eu hadnoddau ac maent wrth wraidd y gwaith o gyflawni blaenoriaethau gwella ymhob un o'r asiantaethau dan sylw.

78 Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad cychwynnol o'r trefniadau ar gyfer gweithredu'r Rhaglen, a ganolbwyntiodd ar roi sicrwydd cynnar o ran trefniadau llywodraethu a chyfeiriad teithio tuag at gyflawni nodau a chanlyniadau bwriadedig, yn hytrach na gwerthuso llwyddiant. Daethom i'r casgliad fod Partneriaid yn ymrwymedig iawn i weledigaeth y Rhaglen a'u bod wedi llunio fframwaith rheoli rhaglen cadarn i'w hategu. Megis dechrau y mae'r

12 Lluniwyd cytundeb partneriaeth o dan Adran 33 o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 i'w gwneud yn bosibl i integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a chyfuno cyllidebau i gyflawni prosiect eiddilwch Gwent.

gwaith o weithredu'r Rhaglen ac erys heriau i sicrhau ei bod yn gynaliadwy, i newid ymddygiad sefydledig ac i ddangos ei heffaith.

79 Mae ein hadroddiad yn cynnwys cynigion ar gyfer gwella. Mae Bwrdd y Rhaglen yn rhoi'r cynigion hyn ar waith ac mae wrthi'n cwblhau cynllun gweithredu i ymdrin â'r argymhellion hyn. Byddwn yn parhau i adolygu cynnydd y rhaglen a byddwn hefyd yn monitro'r cynllun gweithredu. Rydym hefyd yn rhagweld y byddwn yn cynnal gwaith dilynol.

## Cafodd Gwasanaeth Cyflawniad Addysg newydd ei greu ar gyfer De-ddwyrain Cymru ac mae'n canolbwyntio ar wella lefelau cyrhaeddiad o fewn ysgolion

80 Ym mis Medi 2012, sefydlodd Consortiwm De-ddwyrain Cymru y Gwasanaeth Cyflawniad Addysg ar gyfer De-ddwyrain Cymru[13]. Crëwyd y Gwasanaeth Cyflawniad Addysgol gan y pum awdurdod lleol er mwyn gwella safonau addysg. Bydd y Gwasanaeth Cyflawniad Addysg yn monitro, yn cefnogi ac yn herio ysgolion er mwyn gwella lefelau cyrhaeddiad. Mae buddiannau'r gwasanaeth yn cynnwys gwell gallu ac adnoddau i helpu'r ysgolion hynny y mae angen eu herio, defnyddio data yn fwy effeithiol i ganolbwyntio ar ganlyniadau, nodi arfer da ar draws ysgolion y gellir ei ddefnyddio i wella canlyniadau, trefniadau gweinyddu mwy effeithlon a hwyluso cymunedau dysgu proffesiynol.

81 Fel rhan o'r dull cydweithredol o wella addysg, mae'r Cyngor wedi cytuno i benodi Prif Swyddog Addysg ar y cyd ar gyfer Casnewydd a Blaenau Gwent o fis Chwefror 2013.

13 Mae'n cynnwys pum awdurdod lleol Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thor-faen ac mae'n gwmni cyfyngedig drwy warant sy'n eiddo ar y cyd ac sy'n rhoi cymorth i ysgolion wella ac yn llywio cyrhaeddiad addysgol.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Caiff yr asesiad gwella ei lywio gan asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn crynhoi casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ar hunanasesiad yr awdurdod o'i berfformiad.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn crynhoi adroddiadau archwilio ac asesu gan gynnwys unrhyw arolygiadau arbennig (o dan adran 24).

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Gasnewydd a Chyngor Dinas Casnewydd

## Y Cyngor

Mae'r Cyngor yn gwario tua £361 miliwn y flwyddyn (2011-12). Mae hyn yn cyfateb i tua £2,555 fesul trigolyn. Yn yr un flwyddyn, gwariodd y Cyngor £39.7 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd.

Yn 2011-12, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D oedd £995 y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu 2.9 y cant i £1,023 y flwyddyn ar gyfer 2012-13.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 50 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a'r defnydd a wneir o adnoddau. Mae aelodaeth wleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 10 o Geidwadwyr
- dau Annibynnol
- 37 o'r Blaid Lafur
- un o Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru

Prif Weithredwr y Cyngor, a ddechreuodd ei ddyletswyddau gyda'r Cyngor ym mis Ionawr 2013, yw Will Godfrey; Cyfarwyddwr Strategol - Pobl: Stewart Greenwell; Cyfarwyddwr Strategol - Lleoedd: Sheila Davies; a'r Pennaeth Pobl a Thrawsnewid: Debra Wood-Lawson

## Gwybodaeth arall

Aelodau'r Cynulliad dros Gasnewydd yw:

- Rosemary Butler, Gorllewin Casnewydd
- John Griffiths, Dwyrain Casnewydd

Yr Aelodau Cynulliad Rhanbarthol yw:

- Mohammad Asghar, Dwyrain De Cymru
- Jocelyn Davies, Dwyrain De Cymru
- Lindsay Whittle, Dwyrain De Cymru
- William Graham, Dwyrain De Cymru

Yr Aelodau Seneddol dros Gasnewydd yw:

- Jessica Morden, AS Llafur ar gyfer Dwyrain Casnewydd
- Paul Flynn, AS Llafur ar gyfer Gorllewin Casnewydd

Am ragor o wybodaeth, gweler gwefan y Cyngor ei hun yn www.newport.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn Cyngor Dinas Casnewydd, Y Ganolfan Ddinesig, Heol Godfrey, Casnewydd, De Cymru NP20 4UR.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig

Y Cynghorydd R Bright
Arweinydd y Cyngor a Chadeirydd y Cabinet
Cyngor Dinas Casnewydd
Swyddfeydd y Cyngor
Y Ganolfan Ddinesig
Casnewydd
De Cymru
NP20 4UR

Annwyl Gynghorydd Bright

**Llythyr Archwilio Blynyddol**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

**Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a'i ddefnydd o adnoddau**

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ar 22 Hydref 2012, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Nodwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon i aelodau o'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 18 Hydref 2012 (gweler y crynodeb isod) a chyflwynir adroddiad manylach ar y materion perthnasol maes o law.

Arddangosyn 1 – Materion sylweddol sy'n deillio o'r archwiliad

| Gofyniad adrodd | Canfyddiadau'r Archwiliad |
|---|---|
| Camddatganiadau nas cywirwyd | Nodais y camddatganiadau canlynol nas cywirwyd a gynhwyswyd yn y datganiadau ariannol:<br>• Dylid bod wedi creu darpariaeth i roi cyfrif am y rhwymedigaeth sy'n debygol o godi yn y dyfodol ar gyfer hawliadau yswiriant yn deillio o 'Gynllun Trefniant' gyda Municipal Mutual Insurance ar gyfer talu rhwymedigaethau yswiriant o'r cyfnod cyn 1992. Amcangyfrifwyd gennym y dylid bod wedi creu darpariaeth o £624,000.<br>• Tanddatganwyd y dibrisiant mewn perthynas â rhai o asedau'r Cyngor o £299,000.<br>• Roedd darpariaeth y Cyngor ar gyfer drwgddyledion yn seiliedig ar ganrannau mympwyol ac nid oedd yn adlewyrchu tueddiadau diweddar na chyfraddau gwirioneddol y flwyddyn flaenorol gan arwain at 'oramcangyfrif' amcangyfrifedig o £717,000.<br>• Gorddatganwyd credydwyr y Cyngor o £148,000.<br>• Ni roddodd y Cyngor gyfrif priodol am ei gyfran o weithrediadau 'a reolir ar y cyd'.<br>• The Council did not correctly account for its share of 'jointly controlled' operations. |
| Camddatganiadau a gywirwyd | Roedd pum camddatganiad sylweddol yn deillio o'n harchwiliad a gywirwyd yn y cyfrifon, yn amrywio o ran gwerth o £114,000 i £3.922 miliwn. |
| Materion sylweddol eraill sy'n deillio o'r archwiliad | Amlygais rai pryderon o ran yr agweddau ansoddol ar yr arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol. Fodd bynnag, cafwyd gwelliant sylweddol o ran ansawdd papurau gwaith i ategu'r datganiadau ariannol drafft a phrydlondeb wrth ddarparu'r papurau hyn ac mae'r Cyngor wedi ymdrin â'r meysydd o bryder a nodwyd gennym y llynedd.<br>Ni ddaethom ar draws unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod ein harchwiliad.<br>Ni wnaethom drafod na gohebu â rheolwyr am unrhyw faterion sylweddol yr oedd angen i ni roi gwybod amdanynt.<br>Nid oedd unrhyw faterion eraill a oedd yn arwyddocaol i'r gwaith o oruchwylio'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol yr oedd angen i mi adrodd arnynt ac ni nodais unrhyw wendidau perthnasol yn eich rheolaethau ariannol mewnol. |

Er bod y Cyngor wedi llwyddo i gyflawni ei rwymedigaeth i gyhoeddi ei gyfrifon erbyn 30 Medi, gwnaed hyn heb dystysgrif archwilio. Cafwyd oedi o ganlyniad i fater technegol a gododd tuag at ddiwedd yr archwiliad ac a oedd yn ymwneud â'r Municipal Insurance Company gynt a'r ddarpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau posibl a allai ddod i ran y Cyngor yn y dyfodol. Yn seiliedig ar y wybodaeth yn y cyfrifon, roedd yn ymddangos yn debygol bod y cyfrifon wedi'u camddatgan yn sylweddol. Bu'n rhaid ailarchwilio'r ffordd yr oedd y Cyngor yn rhoi cyfrif am y rhwymedigaeth bosibl hon a chynnal asesiad o ba un a oedd angen newid y cyfrifon i adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf y tynnwyd ein sylw ni (a'r awdurdodau lleol) ati. Unwaith yr eglurwyd y sefyllfa, trefnwyd cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer 18 Hydref i ystyried fy Adroddiad diwygiedig ar y Datganiadau Ariannol ac i gymeradwyo'r cyfrifon, ynghyd â Llythyr Sylwadau wedi'i ddiweddaru ataf, a'u llofnodi.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 19 Tachwedd 2012. Ni fu unrhyw faterion ffurfiol o ran her na gwrthwynebiad y bu'n rhaid i mi ymdrin â hwy yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, cefais nifer o negeseuon e-bost gan aelodau o'r cyhoedd yn gwneud amrywiol honiadau am y ffordd yr oedd y Cyngor yn cael ei reoli. Bu'n rhaid i mi neilltuo adnoddau archwilio ychwanegol i ystyried y materion hyn a byddaf yn codi ffi ychwanegol fach am hynny na nodwyd yn fy Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009. Ar y cyfan, rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'u profi eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol yn cyfeirio at nifer o faterion ariannol ac rwyf wedi cyfrannu at y materion hyn fel rhan o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol. Yn arbennig, er y cydnabyddir bod gan y Cyngor hanes da o reoli ei gyllidebau, mae angen gwella ei ddull cynllunio ariannol tymor canolig. Ceir gwendidau hefyd yn y ffordd yr adroddir ar arbedion. Er bod y Cyngor wedi bod yn gweithio i wella ei brosesau rheoli a chynllunio ariannol, mae'r gwaith i ddatblygu proses cynllunio ariannol tymor canolig dryloyw yn arbennig o bwysig o ystyried yr hinsawdd ariannol sydd ohoni. Bydd y trefniadau sydd wrthi'n cael eu datblygu i ehangu'r gorwel cynllunio hyd at 2017-18 a datblygu rhaglen drawsnewid tymor hwy i ymdrin â'r heriau hyn o gymorth mawr yn hyn o beth.

Hoffwn ddiolch i bob aelod o staff y Cyngor a fu o gymorth wrth gwblhau fy archwiliad.

Yn gywir

**Ann-Marie Harkin**
**Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig**

**30 Tachwedd 2012**

cc. Ms Sheila Davies, Rheolwr Gyfarwyddwr Interim
Chris Barton, Pennaeth Cyllid (Swyddog Adran 151)

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Dinas Casnewydd

## Amcanion gwella'r Cyngor

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ar gyfer 2011-12 yn 'Fit for the Future – Feeling Good about Newport Improvement Plan 2011-2012' y gellir dod o hyd iddo ar wefan y Cyngor yn http://www.newport.gov.uk/stellent/groups/public/documents/plans_and_strategies/cont527461.pdf

Mae'r amcanion gwella fel a ganlyn:

| Amcanion Gwella ar gyfer 2011-12 |
|---|
| **Canol Dinas Fywiog**<br>Mae Casnewydd yn ddinas unigryw a bywiog |
| **Mwy o Fusnesau, Mwy o Swyddi**<br>Mae gan Gasnewydd economi lewyrchus sy'n ffynnu<br>Mae mwy o bobl yng Nghasnewydd yn cymryd rhan yn yr economi leol |
| **Addysg Ardderchog i Bawb**<br>Mae plant a phobl ifanc yn llwyddo yn yr ysgol neu yn y gwaith<br>Mae Oedolion yng Nghasnewydd yn Llwyddiannus ac yn Cyrraedd eu Potensial |
| **Dinas Ddiogel ac Iach**<br>Mae pobl yng Nghasnewydd yn iach ac yn ffynnu<br>Mae Pobl yng Nghasnewydd yn Byw mewn Cymuned Ddiogel a Chynhwysol |
| **Delwedd Gadarnhaol**<br>Mae Casnewydd yn ddinas unigryw a bywiog |
| **Cysylltiadau Trafnidiaeth Da**<br>Mae gan Gasnewydd economi lewyrchus sy'n ffynnu |
| **Cwsmeriaid**<br>Mae dinasyddion Casnewydd yn fodlon ar wasanaethau'r cyngor<br>Mae gwasanaethau yn gydgysylltiedig ac yn diwallu anghenion y cwsmer |

| Amcanion Gwella ar gyfer 2011-12 (parhad) |
|---|
| **Perfformiad**<br>Mae'r Cyngor yn sicrhau cyllideb fantoledig<br>Mae gwasanaethau'r Cyngor yn effeithlon ac yn cynnig gwerth am arian |
| **Chi**<br>Mae cyflogeion Cyngor Dinas Casnewydd yn cyrraedd eu potensial llawn |

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ar gyfer 2012-13 yn 'Sefyll yn gadarn dros Gasnewydd Cynllun Gwella 2012-2013' y gellir dod o hyd iddo ar wefan y Cyngor yn
http://www.newport.gov.uk/_dc/index.cfm?fuseaction=improvement.homepage.
Mae'r amcanion gwella fel a ganlyn:

| Amcanion Gwella ar gyfer 2012-13 |
|---|
| **Mae Casnewydd yn Ddinas Ofalgar**<br>Mae pobl yn byw mewn cymunedau cynaliadwy<br>Mae pobl yn byw bywydau annibynnol ac yn cael cymorth lle y bo'n briodol<br>**Blaenoriaethau ar gyfer 2012/13:**<br>• Cynorthwyo defnyddwyr gwasanaethau drwy ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion cymhwysedd<br>• Cynorthwyo mwy o bobl i fyw bywydau annibynnol<br>• Cynorthwyo'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf a sicrhau y darperir cymorth amserol ac effeithiol<br>• Lleihau nifer yr achosion o ddigartrefedd drwy dargedu gweithgareddau (yn enwedig yng nghyd-destun agenda diwygio lles y llywodraeth ganolog)<br>• Codi ymwybyddiaeth deiliaid tai o ran yr arian a'r cymorth sydd ar gael iddynt er mwyn gwneud eu cartrefi'n fwy effeithlon o ran ynni a lleihau eu biliau tanwydd |
| **Mae Casnewydd yn Ddinas Decach**<br>Caiff penderfyniadau eu profi a'u monitro er mwyn sicrhau tegwch<br>Mae'r Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau<br>**Blaenoriaethau ar gyfer 2012/13**<br>• Sicrhau bod teuluoedd a phobl sy'n agored i niwed yn derbyn yr incwm mwyaf posibl drwy dderbyn y budd-daliadau y mae ganddynt yr hawl iddynt<br>• Sicrhau bod amrywiaeth ac ansawdd tai yn briodol i ddiwallu anghenion pobl |

## Amcanion Gwella ar gyfer 2012-13 (parhad)

**Mae Casnewydd yn Ddinas sy'n Dysgu ac yn Gweithio**

Caiff cyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc eu gwella

Mae oedolion yng Nghasnewydd yn llwyddiannus ac yn cyrraedd eu potensial

Mae'r economi leol yn gryf ac yn hyderus

**Blaenoriaethau ar gyfer 2012/13**

- Cynyddu nifer y busnesau sy'n cael cymorth drwy dderbyn grantiau
- Cynyddu mewnfuddsoddi yng Nghasnewydd
- Rhoi cymorth i fentrau sy'n creu swyddi a hyfforddiant ar gyfer cyfleoedd gwaith
- Gwella nifer blynyddol yr ymwelwyr yng nghanol y ddinas
- Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant

**Mae Casnewydd yn Ddinas Wyrddach ac Iachach**

Daw'r ddinas yn fwy deniadol

Caiff cynaliadwyedd amgylcheddol ei hyrwyddo

Bydd pobl yn byw bywydau iachach

**Blaenoriaethau ar gyfer 2012/13**

- Cynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a phob math o weithgarwch corfforol ymhob rhan o'r ddinas
- Rhoi amserlen plannu coed ar waith er mwyn gwrthbwyso ôl troed carbon y ddinas
- Cynyddu faint o wastraff a gaiff ei ailddefnyddio, ei ailgylchu a'i gompostio
- Sicrhau mwy o fannau gwyrdd
- Mynd i'r afael yn brydlon ac yn effeithiol ag achosion o dipio anghyfreithlon y ceir gwybod amdanynt

**Mae Casnewydd yn Ddinas Ddiogelach**

Mae pobl yng Nghasnewydd yn byw mewn cymuned ddiogel a chynhwysol

Mae Casnewydd yn lle bywiog, croesawgar i ymweld ag ef a'i fwynhau

**Blaenoriaethau ar gyfer 2012/13**

- Gwella cyhoeddusrwydd a chamau gorfodi o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Sicrhau bod seilwaith y ddinas yn ddiogel ac wedi'i gynnal a'i gadw mewn cyflwr da

| Amcanion Gwella ar gyfer 2012-13 (parhad) |
|---|
| **Cefnogir Casnewydd gan gyngor dinas sy'n gwella ac a drawsnewidiwyd**<br>Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn sefydliad brwdfrydig a llwyddiannus sy'n darparu gwasanaethau o ansawdd i bobl Casnewydd<br>**Blaenoriaethau ar gyfer 2012/13**<br>• Sicrhau bod dangosyddion perfformiad yn cyrraedd targedau neu'n rhagori arnynt<br>• Cynyddu lefelau boddhad cwsmeriaid<br>• Lleihau nifer y diwrnodau a gollir yn sgil absenoldeb oherwydd salwch<br>• Cynyddu lefelau ymgysylltu â'r gweithlu<br>• Rhoi'r prosiect trawsnewid ar waith a bodloni cyllidebau |

## Hunanasesiad y Cyngor o berfformiad

Gellir dod o hyd i hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn ystod 2011-12, sef 'Adolygiad o Berfformiad Blynyddol 11/12' ar ei wefan yn:
http://www.newport.gov.uk/_dc/index.cfm?fuseaction=improvement.homepage.

# Atodiad 5
# Cynigion ar gyfer gwella 2012-13

Fel rhan o'n gwaith yn 2012-13, rydym wedi gwneud rhai cynigion newydd ar gyfer gwella. Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor amdanynt eisoes ac fe'u nodir isod er gwybodaeth. Byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd a wneir gan y Cyngor o ran gweithredu'r cynigion ac i gyflwyno adroddiadau ar y cynnydd hwnnw fel rhan o'n rhaglen waith yn y dyfodol.

<table>
<tr><th>Adolygiad dilynol o drefniadau Rheoli Asedau Awst 2012</th></tr>
<tr><td>Dylai'r Cyngor gyflwyno strategaeth rheoli asedau effeithiol ar gyfer ei seilwaith eiddo a seilwaith cysylltiedig. Dylai'r strategaeth:<br>• nodi gweledigaeth ar gyfer pob math o ased sy'n dangos sut y bydd yn cyfrannu at amcanion a nodau gwasanaeth y Cyngor;<br>• pennu targedau ar gyfer asesu cynnydd, gan gynnwys cyflwr ac addasrwydd pob ased;<br>• disgrifio cynllun cyffredinol ar gyfer cyflawni hyn.</td></tr>
<tr><td>Er mwyn galluogi Gwasanaethau Eiddo i gyflawni nodau strategol y Cyngor, mae angen iddo:<br>• gytuno ar gyfeiriad strategol clir ar gyfer rheoli asedau a chyfleu'r cyfeiriad hwnnw, gan nodi'r hyn y mae'n bwriadu ei gyflawni yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir;<br>• sicrhau bod ei gynllun busnes yn cwmpasu holl weithgarwch y gwasanaeth newydd;<br>• sicrhau bod y cynllun gweithredu yn un CAMPUS[14] a'i fod yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau;<br>• sicrhau bod cynlluniau adrannau a thargedau staff unigol yn gysylltiedig â'r cynllun busnes ac amcanion corfforaethol er mwyn cefnogi'r gwaith o'u cyflawni.</td></tr>
<tr><td>Cynnal rhaglen dreigl systematig o asesiadau cyflwr ac addasrwydd, er mwyn sicrhau y caiff gwybodaeth gynhwysfawr am holl adeiladau'r Cyngor ei chadw mewn un gronfa ddata.</td></tr>
<tr><td>Llunio strategaeth gyfalaf hirdymor, sy'n gysylltiedig â chyflawni nodau'r strategaeth rheoli asedau. Dylai'r strategaeth hon gynnwys dull corfforaethol ffurfiol o arfarnu opsiynau ar gyfer prosiectau cyfalaf arfaethedig.</td></tr>
<tr><td>Adolygu'r data perfformiad sy'n bodoli eisoes a sicrhau bod amrywiaeth cynhwysfawr o fesurau priodol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar waith i reoli'r broses wella ym mhob gwasanaeth.</td></tr>
<tr><td>Mynd i'r afael â gwendidau o ran amrywiaeth a chwmpas adroddiadau ar y cynllun busnes drwy gynnwys gwybodaeth gynhwysfawr am berfformiad, data tueddiadau, data rancio, perfformiad cyllidebol, risg a gwybodaeth feincnodi.</td></tr>
<tr><td>Sicrhau bod gwybodaeth am asedau yn gyfredol, yn gyflawn, ac wedi'i chadw mewn ffordd sy'n golygu y gellir llunio adroddiadau rheoli priodol.</td></tr>
</table>

14 Mae CAMPUS yn gofrif a ddefnyddir i bennu amcanion rheoli prosiect a/neu Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) sy'n ategu trefniadau rheoli perfformiad effeithiol. Mae'r llythrennau'n cynrychioli'r geiriau Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol.

| Gwerthuso Gweithgarwch Adfywio Medi 2012 |
| --- |
| Sicrhau bod ei Strategaeth Datblygu Economaidd a'i Uwch Gynllun wedi'u cysylltu'n glir ag amcanion perthnasol y Strategaeth Gymunedol a'r Amcanion Gwella ac â'i gilydd, er mwyn helpu'r Cyngor i asesu eu cyfraniad at ei raglen wella ac at gyflawni blaenoriaethau strategol y Cyngor. |
| Blaenoriaethu ei gamau gweithredu ac, yn erbyn y camau gweithredu hynny, cynnwys mwy o fanylion yn gyson am ganlyniadau, targedau, terfynau amser, adnoddau, cerrig milltir, ffactorau risg a chamau lliniaru, y gellir eu defnyddio i fonitro cynnydd, mesur llwyddiant a sicrhau gwelliant. |
| Atgyfnerthu'r broses o bennu canlyniadau a thargedau ar gyfer cynlluniau a phrosiectau adfywio, a sicrhau bod digon o wybodaeth am berfformiad ar gael i ategu'r broses monitro a gwerthuso. |
| Cynnwys mwy o fanylion am amser, cyllideb ac adnoddau mewn dogfennau adfywio megis dogfennau cychwyn prosiectau er mwyn gallu asesu gwerth a chosteffeithiolrwydd. |
| **Llythyr Asesiad Gwella Hydref 2012** |
| Cynllun Gwella<br>Dylai’r Cyngor sicrhau bod trefniadau ar waith i gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag y bo’n ymarferol ar ôl dechrau pob blwyddyn ariannol, a chydymffurfio fwy â chanllawiau’r Mesur. |
| Rhoi cynigion ar gyfer gwella ar waith<br>Dylai’r Cyngor roi trefniadau ar waith sy’n sicrhau bod atebolrwydd ar gyfer ymdrin â chynigion ar gyfer gwella yn glir, a bod prosesau monitro ac adrodd cadarn ar waith sy’n olrhain ac yn adrodd yn glir ar gynnydd. |
| Cynllunio ariannol<br>• mae angen i’r Cyngor gytuno ar ddiffiniad gweithredol o ‘arbedion’ a gaiff ei ddeall ymhob rhan o’r sefydliad;<br>• dylai’r Cyngor gofnodi gwybodaeth am ‘arbedion’ ariannol mewn ffordd sy’n nodi’n glir y math o arbediad a’i natur;<br>• er mwyn gwella ei ddull cynllunio ariannol tymor canolig, dylai’r Cyngor gynnwys data priodol i helpu i nodi effeithiau ariannol newidiadau o ran y galw am wasanaethau yn ogystal â newidiadau o ran demograffeg;<br>• er mwyn gwella ei ddull cynllunio ariannol tymor canolig, dylai’r Cyngor ddefnyddio adnoddau modelu ariannol i ragamcanu effeithiau ariannol tebygol ac effeithiau tebygol ar wasanaethau o ystyried amrywiaeth o ragdybiaethau a senarios. |

| Llythyr Asesiad Gwella Rhagfyr 2012 |
| --- |
| Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn cydymffurfio fwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru drwy'r canlynol:<br>• gwerthuso ei lwyddiant wrth gyflawni ei amcanion gwella a mynegi ei farn yn eglur;<br>• defnyddio sail dystiolaeth ehangach o ran gwybodaeth er mwyn gallu asesu pa un a yw wedi cyflawni ei amcanion gwella;<br>• ehangu'r defnydd o wybodaeth gymharol gan gynnwys perfformiad hanesyddol a chymariaethau â chyrff eraill;<br>• sicrhau bod ei asesiad o berfformiad mor hygyrch â phosibl i ddinasyddion a rhanddeiliaid;<br>• gofyn am adborth a sylwadau gan ddinasyddion a chymunedau ar ei Adolygiad o Berfformiad. |
| Rheoli Perfformiad<br>Dylai'r Cyngor wneud y canlynol:<br>• egluro cyfrifoldebau strategol o ran rheoli perfformiad o fewn ei strwythur rheoli newydd;<br>• rhoi trefniadau corfforaethol mwy cydgysylltiedig/cydlynus a chadarn ar waith o ran rheoli perfformiad, cyflwyno adroddiadau arno, ei werthuso a'i wella. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk